**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**CYFARWYDDIADAU A CHANLLAWIAU DRAFFT DAN ADRANNAU 123-125 DEDDF DYSGU A MEDRAU 2000: YMESTYN HAWLIAU (CEFNOGI POBL IFANC YNG NGHYMRU)**

**Pwrpas**

1. Rhoi cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y ddeddfwriaeth ddrafft.

**Amseru**

2. Cychwynnodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ym mis Tachwedd, a daw i ben ar 31 Ionawr 2002. Mae disgwyl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ym mis Medi 2002.

**Cefndir**

3. Yn ystod un o gyfarfodydd llawn y Cynulliad ym mis Tachwedd 2000, ystyriwyd adroddiad yr Uned Bolisi, "Ymestyn Hawliau" , sef astudiaeth a fyddai'n sail i ddatblygu polisïau pobl ifanc y Cynulliad. Seiliwyd yr astudiaeth ar drafodaethau â'r bobl ifanc eu hunain ac â'r bobl sy'n gweithio gyda hwy. Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol frwd i argymhellion yr adroddiad.
4. Yn sgil y drafodaeth yn y cyfarfod llawn, cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr adroddiad. Daeth yr ymarfer ymgynghori ffurfiol i ben yn ystod y gwanwyn 2001; ar ddechrau'r haf, trafodwyd cynnwys yr adroddiad â phobl ifanc ledled Cymru ac â chynrychiolwyr mudiadau ac asiantaethau allweddol mewn nifer o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb a oedd yn rhan o ymgynghoriadau cynllunio'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc.
5. Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael ar wefan y Cynulliad. Dadansoddwyd yr ymatebion gan Dîm Polisi Ieuenctid y Cynulliad a sefydlwyd yn ddiweddar; mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn deillio o'r gwaith dadansoddi hwnnw. Aed ati i ddrafftio'r ddeddfwriaeth mewn cydweithrediad agos â gweithwyr ar secondiad o'r sector gwirfoddol, awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru. Mae'r drafft ymgynghori (copi yn atodedig) hefyd yn deillio o safbwyntiau aelodau'r Grwp Ymgynghori gwreiddiol, yn ogystal â safbwyntiau nifer o bobl eraill allanol yr ymgynghorwyd â hwy sy'n arbenigo mewn materion ieuenctid.
6. Bydd y Pwyllgor yn nodi bod y cyfarwyddiadau drafft wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir er mwyn iddynt fod yn ddealladwy; pan benderfynir yn derfynol ar y cynnwys ar ddiwedd y broses ymgynghori ffurfiol, cânt eu hailysgrifennu gan ddefnyddio termau cyfreithiol priodol.
7. Nid yw'r cyfarwyddiadau ar arfer da yn Atodiad 10 y Canllawiau mor gynhwysfawr ag y byddem yn dymuno hyd yma. Y gobaith yw y bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn

annog y rhai yr ymgynghorir â hwy i gyflwyno rhagor o enghreifftiau o arfer da y gellir eu cynnwys yn y canllawiau terfynol a/neu eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad er budd eraill.

8. Wedi cryn drafod, rydym wedi penderfynu na fyddai'n addas i bobl ifanc chwarae rhan uniongyrchol fel aelodau o'r Partneriaethau Pobl Ifanc, a hynny er mwyn osgoi "*tokenism*" a chadw maint y Partneriaethau dan reolaeth, ac am na chredwn y bydd y trafodaethau o ddiddordeb i'r rhan fwyaf o bobl ifanc. Er hyn, rydym yn disgwyl i'r Partneriaethau ymgynghori mewn ffyrdd priodol ag ystod eang o bobl ifanc ar bob agwedd ar waith y Partneriaethau ac i ystyried safbwyntiau'r bobl ifanc hynny. Adlewyrchir y disgwylidadau hyn yn y Cyfarwyddiadau a'r Canllawiau.
9. Mae'r drafft yn rhagdybio mai llunio strategaeth dreigl bum mlynedd fyddai'r ffordd orau i'r Partneriaethau Pobl Ifanc wireddu gweledigaeth dymor hir Partneriaethau'r Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc, a hynny mewn modd cyraeddadwy ac ymarferol. Bydd diwedd strategaeth dreigl bum mlynedd gyntaf y Partneriaethau Pobl Ifanc yn cyd-daro ym mis Mawrth 2008 â'r gwaith o gynllunio Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc perthnasol. Mae'n anorfod y bydd strategaeth bum mlynedd yn fanylach ar gyfer y tair blynedd gyntaf nag ar gyfer y ddwy flynedd olaf. Awgrymwyd y byddai'n haws mynd i'r afael â strategaeth dreigl dair blynedd; rydym yn gwahodd sylwadau y rhai yr ymgynghorir â hwy ar y mater hwn, a byddai'n dda gennym glywed sylwadau'r Pwyllgor ar hyn.
10. Sylweddolwn fod yr amserlen a luniwyd gennym ar gyfer gwaith ar lefel leol i sefydlu Partneriaethau ac i archwilio anghenion, darpariaeth, sgiliau ac adnoddau, yn uchelgeisiol ac na fydd yn bosibl ei chyflawni'n llwyr mewn rhai ardaloedd. Dylid ystyried yr amserlen fel rhywbeth i ymgyrraedd ati. Efallai na ddaw'r gwaith o archwilio darpariaeth ac anghenion lleol i ben erbyn mis Mawrth 2002, ac efallai na fydd strategaethau pum mlynedd y Partneriaethau wedi'u paratoi ar ffurf dogfennau manwl a chaboledig o fewn y cyfnod hwnnw. Er hyn, bydd y fersiynau drafft cychwynnol yn ein galluogi i baratoi'r strategaeth genedlaethol ar sail dyheadau'r Partneriaethau Pobl Ifanc lleol, a gallwn seilio ein trafodaethau ynghylch cyllid y dyfodol arnynt. Felly mae'n hanfodol ein bod yn cadw at yr amserlen. Disgwylir i'r dogfennau hyn fod yn rhai byw a fydd yn para.

**Goblygiadau ariannol**

11. Ni fydd goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn sgil y ddeddfwriaeth arfaethedig. Am y tro cyntaf, bydd y Cyfarwyddiadau a'r Canllawiau yn rhoi sail statudol glir i'r Gwasanaeth Ieuenctid. Yn ystod 2001-02 rhoddodd y Cynulliad £2 filiwn ychwanegol i gynorthwyo'r awdurdodau lleol i fynd ati i atgyfnerthu'r gwasanaethau ieuenctid yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Ar ddechrau mis Rhagfyr cyhoeddir cynlluniau manwl ar gyfer Grant Cymorth Refeniw i awdurdodau lleol ar gyfer 2002-03. Ymhlith cynigion drafft y Gweinidog Cyllid a fydd yn sail i'r setliad mae codiad arfaethedig gwerth £1.75 miliwn a fyddai'n gynnydd sylweddol gwerth 87.5%. Er nad yw'r setliad cyffredinol wedi'i glustnodi, bydd y Cynulliad am weld gwelliant o ran ansawdd gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol, a'r ffordd y'i cyflanwir, yn nalgylch pob

awdurdod lleol, a hynny y tu hwnt i'r hyn y byddai wedi'i wneud fel arall. Gobeithiwn y bydd y Grant Cymorth Refeniw yn cynyddu yn y dyfodol er mwyn parhau i roi cymorth i awdurdodau wrth iddynt roi hyn ar waith.

Yn ogystal, bydd disgwyl i'r Partneriaethau Pobl Ifanc ganfod cyllid sydd ar gael iddynt o wahanol ffynonellau eraill, a chydweithio i wneud y gorau ohono er mwyn cyflawni'r amcanion penodol sy'n gyffredin iddynt.

**Cydymffurfio**

12. Mae'n ddyletswydd ar y Cynulliad dan Adran 10 Deddf Addysg 1996 i hybu addysg pobl Cymru. Mae Adrannau 40 ac 85 Deddf Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r swyddogaeth honno. Mae'r pwerau hyn wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Ystyried Gwell Cymru**

13. Ni fydd unrhyw oblygiadau i ddatblygu cynaliadwy o roi'r ddeddfwriaeth ar waith. Er hyn, yn y pen draw bydd y ddeddfwriaeth yn gwella'r ddarpariaeth a'r cymorth i holl bobl ifanc Cymru, ac felly yn hybu amcanion y Cynulliad i leihau anfantais gymdeithasol a gwella cyfle cyfartal i bawb.

**Cyswllt**

Suzanne Chisholm

Y Tîm Polisi Ieunectid

029 2082 6056

ebost: suzanne.chisholm@wales.gsi.gov.uk